**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddfwriaeth, Pwyllgor Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Ionawr 2023

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

Diolch am eich adroddiad ar y Memorandwm ar gyfer Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022. Gweler yr ymateb sydd ynghlwm i'r argymhelliad.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â'r Memorandwm ar gyfer Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022 – Tachwedd 2022**

Gosododd Llywodraeth y DU fersiwn ddrafft o Orchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022 (y Gorchymyn) gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref 2022[1].

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth o ran allyriadau at ddiben adrodd ar garbon o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Y canlyniad yw y caiff allyriadau $NF_3$ [nitrogen trifflworid] eu cynnwys ymhlith yr allyriadau a gofnodir ar gyfer Datganiad Allyriadau Blynyddol 2021, cyfnod cyfrifo llawn Trydedd Gyllideb Garbon y DU (2018–2022), a chyllidebau carbon y DU wedi hynny.

Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth gymwys") mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Ar 21 Hydref, gosodais Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm) gerbron y Senedd ar gyfer y Gorchymyn, yn unol â Rheol Sefydlog 30A, ac ysgrifennais at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiad ar y Memorandwm ar gyfer y Gorchymyn Newid yn yr Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu). Rwy'n arbennig o falch o weld eu bod yn fodlon ar y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhelliad unigol yr Adroddiad isod.

**Mae'r ymateb i argymhelliad yr adroddiad wedi'i nodi isod:**

**Argymhelliad 1.** Argymhelliad y Pwyllgor oedd:

Y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 i ofyn am gytundeb y Senedd i gynnwys darpariaeth cymwys yng Ngorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi eu Targedu) 2022.

**Ymateb – Gwrthod**

Mae'r Gorchymyn yn sicrhau bod y darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn fy marn i nid oedd yn newydd nac yn ddadleuol. O'r herwydd ni wnes gyflwyno cynnig ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn unol â'r sefyllfa a amlinellir yn llythyr Prif Weinidog Cymru dyddiedig Tachwedd 2020, ac mewn cydymffurfiaeth â gofynion Rheol Sefydlog 30A. O'r herwydd cafodd y Gorchymyn ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 11 Ionawr.

---

[1] The Climate Change (Targeted Greenhouse Gases) Order 2022 (senedd.wales)

Fodd bynnag, rwy’n nodi pryderon y Pwyllgor o ran y prosesau hyn ac yn benodol rwy’n nodi’r ohebiaeth ddiweddar gan y Pwyllgor ynghylch sicrhau eglurhad o ran Rheol Sefydlog 30A. Wrth gwrs mi fuaswn i’n croesawu cyfleoedd pellach i drafod unrhyw eglurhad o’r fath neu adolygiad o Reol Sefydlog 30A.